| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | Dydd Mercher, Medi 20, 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr adroddiad** | Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad |
| **Teitl** | Trefniadau ar gyfer Asesiad Perfformiad Panel |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Diben yr adroddiad yw hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu a Pherfformiad o'r gofynion statudol ar gyfer cynnal Asesiadau Perfformiad Panel yn ystod tymor y Cyngor Sir, ac argymell newidiadau priodol yn y Cyfansoddiad ar gyfer y trefniadau hynny.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio argymell bod y Cyngor Sir yn gwneud y newidiadau angenrheidiol yn y Cyfansoddiad er mwyn cynnwys y trefniadau newydd ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Panel yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n ystyried y cynnig a gyflwynir ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad hwn, ac;

3.2. Yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau a awgrymir yn sgil y drafodaeth, argymell newid yn y Cyfansoddiad i'r Cyngor Sir ei gymeradwyo ar Dachwedd 14.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bod prif gynghorau'n gwneud trefniadau i sicrhau bod y Cyngor, o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau o etholiadau cyffredin olynol i ethol cynghorwyr i'r Cyngor Sir (Mai 2022 a'r un a ragwelir ym Mai 2027), yn penodi panel i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni'r gofynion ynglŷn â'i berfformiad.

4.2. Mae'n rhaid i'r panel ymgynghori â'r bobl ganlynol ynghylch y graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad:

i. pobl leol;
ii. pobl eraill sy'n rhedeg busnesau yn ardal y cyngor;
iii. staff y cyngor; a
iv. pob undeb llafur sy'n gydnabyddedig (yn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992) gan y Cyngor.

4.3. Wedi Asesiad Perfformiad Panel, mae'n rhaid i'r panel lunio adroddiad yn nodi ei gasgliadau ynglŷn â'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y mae'r panel yn argymell bod y Cyngor yn eu cymryd er mwyn bodloni ei ofynion perfformiad i raddau helaethach.

4.4. Ceir braslun isod o'r gwahanol gamau ym mhroses yr Asesiad Perfformiad Panel wrth gyflawni'r swyddogaethau sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Cam 1: Paratoi**

Yn y cam hwn mae'n ofynnol:

i. Datblygu dogfen gwmpasu sy'n ymdrin ag unrhyw heriau sydd wedi'u hamlygu yn ein Hunanasesiad, mewn archwiliad diweddar, arolygiad ac/neu adroddiadau cyrff rheoleiddio.
ii. Gan ymateb yn benodol i Adran 92(1), penodi Panel Asesu Perfformiad (ar sail yr anghenion a nodir yn y ddogfen gwmpasu).

**Cam 2: Asesu**

Byddai'r asesiad yn cynnwys adolygu dogfennau a chymysgedd o waith o bell ac yn y swyddfa, gan gynnwys amryw gyfweliadau ag unigolion a grwpiau ffocws. Yn ôl asesiadau corfforaethol yn y gorffennol neu archwiliadau gan gyrff rheoleiddio allanol, gellir gwneud hyn dros bedwar diwrnod fel arfer. Darperid casgliadau anffurfiol ar y diwedd cyn mynd ati i lunio'r adroddiad.

**Cam 3: Gwaith Dilynol**

Yn y cam hwn mae'n ofynnol:

i. Gwirio adroddiad drafft a chywiro unrhyw wallau ffeithiol.
ii. Yn unol ag Adran 93(1), rhaid llunio ymateb drafft wedi hynny a'i ddarparu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Gall y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio argymell newidiadau, ac os na wneir y newidiadau hynny mae'n rhaid datgan y rhesymau pam yn yr ymateb (Adran 93(5)). Mae'n rhaid rhannu'r ymateb terfynol â'r Panel.
iii. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi cadarnhau'r ymateb terfynol, rhaid ei gyhoeddi (ynghyd â'r adroddiad) a'i rannu ag Archwilio Cymru, Estyn, AGC a Gweinidogion Cymru.

4.5. Mater lleol yw pennu'r trefniadau ar gyfer Asesiadau Perfformiad Panel, ac mae'n destun cymeradwyaeth gan naill ai'r Cyngor Sir neu'r Weithrediaeth, fel y penderfyna'r Cyngor (Adran 108). Mae'r hyblygrwydd yn hyn o beth yn creu ansicrwydd hefyd, ac felly mae'n ofynnol diwygio'r Cyfansoddiad i fod yn bendant ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol.

4.6. Yn gyson â'r modd y mae'r Cyngor Sir yn ymdrin â materion tebyg eraill – gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb, polisi cynllunio neu faterion perfformiad, er enghraifft – cynigir rhoi'r cyfrifoldeb i'r Weithrediaeth (hynny yw, y Cabinet) wneud y trefniadau manwl ar gyfer Asesiadau Perfformiad Panel. Wrth lunio'r ddogfen gwmpasu ar gyfer unrhyw asesiad, fodd bynnag, rhaid ceisio cyfraniad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac yn ogystal â cheisio barn y Pwyllgor hwnnw ynghylch ymateb rheolwyr y Cyngor i'r adroddiad asesu, mae'n rhaid rhannu canlyniad(au) yr asesiad mewn cyfarfod o'r Cyngor Sir.

4.7. Credir mai dyma'r dull mwyaf rhesymol gan ystyried ei bod yn debygol y daw nifer o adroddiadau'n gofyn am benderfyniadau prydlon ar wahanol adegau yn ystod y drefn

o benodi'r panel a chwmpasu ei waith, yn ogystal â chytuno ar yr ymateb. Byddai'r dull hwn hefyd yn sicrhau y gall Aelodau Etholedig gyfrannu at y broses a dal y Cabinet i gyfrif am y canlyniad.

4.8. Os yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cydsynio, defnyddir paragraff 4.6 uchod yn sail ar gyfer y cymal drafft i'w gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Fe'i cyflwynir mewn papur gan y Swyddog Monitro ynglŷn â diwygiadau cyffredinol yn y Cyfansoddiad a ddaw gerbron y Pwyllgor yn yr hydref cyn mynd gerbron y Cyngor Sir er cymeradwyaeth ym mis Tachwedd.

4.9. Trafodwyd y trefniadau hyn â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet ac mewn egwyddor maent o blaid mabwysiadu dull Asesiad Perfformiad Panel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (gweler atodiad 1) a dewis cynnal Asesiad Perfformiad Panel canol tymor ym mlwyddyn ariannol 2024/2025. Ffefrir yr hyn y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei gynnig oherwydd y risg, pe byddai'r Cyngor yn cydlynu'r drefn o benodi panel er mwyn cyflawni gofynion y canllawiau statudol (tudalennau 28-29), yn ogystal â chydlynu'r asesiad ei hun, na fyddai aelodau o'r panel yn meddu ar yr arbenigedd neu'r profiad sy'n ofynnol i gynnal yr asesiad. Byddem hefyd yn wynebu cryn bwysau, nid yn unig o safbwynt gallu staff i gyflawni, ond hefyd y costau ariannol (yn benodol, talu treuliau 4-6 o aelodau o'r panel).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd yr Asesiad Perfformiad Panel yn profi mor effeithiol ac effeithlon y cyflawnir swyddogaethau'r Cyngor, gan ganolbwyntio'n benodol ar ein hamcanion perfformiad fel y'u pennwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Bydd y gwaith yn arbennig o fuddiol yng nghyd-destun nawfed thema'r Cynllun Corfforaethol, sef bod yn Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn – hynny yw, newid y cyfansoddiad. Dylid nodi, fodd bynnag, yr amcangyfrifir y bydd costau'r Asesiad Perfformiad Panel rhwng 2022 a 2023 rhwng £22,000 a £24,000.

Mae'r costau hynny'n amodol ar wasgfeydd blynyddol yn deillio o gyflogau a chwyddiant, ac ar hyn o bryd maent yn debygol o fyd ychydig yn fwy erbyn 2024.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Trafodwyd yr adroddiad â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Y cam nesaf fydd cyflwyno'r argymhellion ffurfiol i'r Cyngor ym mis Tachwedd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'n siomedig fod costau ychwanegol yn codi mewn cyfnod o wasgfeydd ariannol enfawr ar gynghorau ledled Cymru. Cefnogir y cynnig, serch hynny. Mae'n bwysig adolygu'r adnoddau presennol, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn, er mwyn lleihau'r effaith ariannol. Bydd yr adran Gyllid yn gweithio â'r gwasanaeth i wneud hynny.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Rhan 6, Perfformiad a Threfniadau Llywodraethu Prif Gynghorau a Chydbwyllgorau Corfforedig (Adrannau 92, 93, 94 a 108).